



Rhestr wirio diogelwch Cyd- Undebol ar gyfer ysgolion

Rhestr wirio ar gyfer agoriad
ehangach ym mis Mawrth

Argyfwng Coronafeirws
Rhestr wirio Gweithle



Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ysgolion a cholegau baratoi ar gyfer agoriad ehangach o 15 Mawrth. Cyn hynny, bydd angen i arweinwyr adolygu'r gweithdrefnau diogelwch a sefydlwyd yn flaenorol a sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau, yn ôl yr angen.

Mae'n rhaid inni sicrhau nad yw ysgolion yn troi yn 'fectorau trosglwyddo' unwaith eto. Gwnaethom drafod gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dull am yn ail (staggered) nad yw'n cynyddu cyfraddau trosglwyddo lleol, gan ganiatáu i ysgolion fabwysiadu dychweliadau graddol a systemau rota hyblyg yn ogystal â'r mesurau a nodir isod i'w helpu i gynnal diogelwch.

Defnyddio'r cyngor hon

Nod y cyngor ar y cyd hwn yw eich helpu i ddeall cyngor cyfredol Llywodraeth Cymru, nodi'r meysydd pwysicaf i'w hystyried a sicrhau bod asesiadau risg a mesurau diogelwch priodol ar waith ar gyfer gweithle mwy diogel.

Ein nod yw helpu arweinwyr gyda'u cyfrifoldebau anodd trwy ddarparu cyngor cynhwysfawr a helpu i sicrhau hyder trwy ymgynghori a chyfathrebu llawn

Dylai cynrychiolwyr undeb geisio cyfarfodydd gydag arweinwyr i drafod eu paratodau. Os oes gan aelodau bryderon ynghylch mesurau diogelwch arfaethedig neu feysydd na chawsant sylw, yna bydd cefnogaeth ar gael gan eu hundeb.

Asesiadau risg

Mae cyngor Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd asesiadau risg a mesurau diogelwch sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Ymhlith y materion y mae'n rhaid i arweinwyr, cynrychiolwyr, ac aelodau eu hystyried yw:

- + A yw'r broses asesu risg wedi ystyried yr holl feysydd a nodwyd yng nghyngor Llywodraeth Cymru ac undebau ar y cyd, wedi gwerthuso'r risg o niwed yn llawn, ac wedi nodi'r mesurau i'w cymhwyso ym mhob maes?
- + A fu digon o ymgynghori â chynrychiolwyr undeb a staff?
- + A yw'n glir sut y bydd gweithdrefnau diwygiedig yn cael eu cyfleu i staff, myfyrwyr a rhieni / gofalconwyr, staff sy'n gweithio i gontractwyr, a gweithwyr sy'n ymweld?
- + A yw sefyllfa'r staff mwyaf agored i niwed wedi'i hystyried yn ddigonol trwy asesiadau risg unigol?

Cwestiwn i gynrychiolwyr ac aelodau:

A ydych chi a'ch cydweithwyr yn fodlon â'r broses asesu risg neu a ydych chi'n teimlo bod y sefyllfa'n annïogel oherwydd esgeulustra neu wallau?

Pellhau cymdeithasol a mesurau diogelwch

Prif bryder Llywodraeth Cymru yw lleihau trosglwyddiad cymunedol ac i ba raddau y gall ysgolion gyfrannu at hyn trwy gyswllt ar y safle ac wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r cyd-undebau hefyd yn awyddus i sicrhau bod aelodau'n cael eu cadw'n ddiogel tra yn y gwaith.

Mae diogelwch o amgylch yr ysgol ac ym mhob ystafell ddosbarth yn dibynnu ar ystod o ffactorau sy'n gysylltiedig a'i gilydd – nifer y staff a'r myfyrwyr, i ba raddau y cânt gynnal eu pellter, a'r mesurau eraill i leihau'r risg o drosglwyddo, fel gorchuddion wyneb, awyru ac ati.

Mae cyngor pellhau cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn parhau i fod y dylai pawb aros 2 fetr ar wahân lle bo hynny'n bosibl. Dywed cyngor Llywodraeth Cymru "nid yw hyn bob amser yn bosibl" mewn rhai sefyllfaoedd mewn ysgolion ond mae'n ailddatgan yr egwyddor sylfaenol lle bo hynny'n bosibl.

Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru yn nodi os nad oes modd cadw pellter cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn o bresenoldeb is, yn enwedig gyda dysgwyr iau, dylid gwisgo gorchudd wyneb unrhyw le ar ystâd yr ysgol, gan gynnwys yn yr ystafell ddosbarth gan staff mewn ysgolion cynradd, a gan staff a dysgwyr mewn ysgolion uwchradd. Yr eithriad i hyn yw yn ystod prydau bwyd a phan fyddant y tu allan, oni bai fod asesiad risg yr ysgol yn dangos bod angen mesurau ychwanegol, e.e., ar iard ysgol lle mae nifer fawr o ddysgwyr mewn lle cymharol fach ac nad yw'r grwpiau cyswllt wedi'u gwahanu (fel pan fyddant yn aros i fynd i mewn i'r ysgol) Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi na ddylai plant 5 oed neu iau wisgo masgiau ond y dylid gwneud penderfyniadau rhwng 6 ac 11 oed ar sail amryw o ffactorau, gan gynnwys trosglwyddo lleol, mynediad at fasnau, gallu'r plant i'w defnyddio, a'u llesiant Clefyd coronafeirws (COVID-19): Plant a masgiau (who.int). Mae'r angen i blant iau wisgo masg yn bodoli mewn nifer sylweddol o wledydd eraill, gan gynnwys UDA. Os cyflawnir hyn hyd yn oed ymhlith

disgyblion cynradd hyn yn unig, gallai helpu i leihau trosglwyddiad ac aflonyddwch. Lle nad yw'n ofynnol i orchuddion wyneb gael eu gwisgo gan ddisgyblion mewn ystafelloedd dosbarth, dylid darparu masgiau wyneb gradd uwch priodol i staff ysgolion, sy'n amddiffyn y gwisgwr, e.e., FFP2, neu FFP3 mewn lleoliadau risg uwch, fel ADY. Bydd Eithriadau rhag gwisgo gorchuddion wyneb yn angenrheidiol i fyfyrwyr sy'n ei chael yn anodd ei wisgo, yn enwedig mewn ysgolion arbennig.

Mae pob ysgol a phob ystafell ddosbarth yn wahanol ac rydym yn eich cyngori i ystyried y materion canlynol ac yna penderfynu a ydych chi'n meddwl bod pethau'n ddiogel ac, os ddim, ceisio cefnogaeth. Dylech hefyd ystyried y cyngor ar staff bregus a risg uwch a osodir yn ddiweddarach yn y cyngor hwn.

Mesurau diogelwch o amgylch yr ysgol

- + A yw grwpiau cyswllt yn cael eu gwneud mor fach â phosibl? (e.e., mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai dosbarth yw grŵp cyswllt ar gyfer ysgolion cynradd. Dylai staff osgoi cyfnewid rhwng gwahanol, neu nifer, o grwpiau oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol, ac yn destun asesiad risg. Byddem yn cyngori peidio â dychwelyd i grwpiau cyswllt blwyddyn lawn)
- + A fydd staff a myfyrwyr yn cael eu cadw mewn un grŵp cyswllt, gan osgoi symud staff rhwng grwpiau cyswllt yn gyfan gwbl lle bynnag y bo modd ac eithrio mewn argyfyngau? A fydd trefniadau ar gyfer symud o amgylch y safle yn lleihau maint y cyswllt a'r cymysgu?
- + A fydd egwyl cinio ac egwyliau eraill yn cael eu trefnu am yn ail?
- + A fydd cynulladau mawr e.e., gwasanaethau, yn cael eu hosgoi?
- + A yw trefniadau awyru wedi'u hadolygu i sicrhau'r awyru mwyaf posibl o'r holl ofodau ysgol?
- + Pa fesurau ac offer ychwanegol sy'n cael eu defnyddio i gynorthwyo a gwella awyru? A oes monitorau CO2 ar gael i alluogi monitro rheolaidd?

- + A oes unrhyw rannau o'r ysgol ag awyru anniogel na ddylid eu defnyddio?
- + A gyflwynwyd cyfundrefnau glanhau gwell ledled yr ysgol gan gynnwys cyflogi staff glanhau ychwanegol a thalu am faich gwaith ychwanegol neu oriau a weithiwyd i gefnogi staff glanhau ac ystadau?
- + A yw toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd?
- + A ddarperir biniau caeedig ar gyfer gwaredu hancesi papur?
- + A fydd yn ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb o amgylch yr ysgol yn ôl yr angen neu fel y'u cynghorir gan ganllaw Llywodraeth Cymru?
- + A fydd gorchuddion wyneb yn cael eu darparu gan yr ysgol lle bo angen?
- + A fydd offer amddiffynnol personol (OAP) gan gynnwys masgiau gradd FFP2 neu FFP3, os yw'n briodol, yn cael ei ddarparu ar gyfer staff sy'n gweinyddu cymorth cyntaf, gofal meddygol, neu weithgareddau gofal personol lle na ellir cynnal pellter cymdeithasol, er enghraifft mewn rhai ysgolion a meithrinfeydd arbennig.
- + A fydd OAP yn cael ei ddarparu i staff arlwy, glanhau, ac ystadau?
- + A fydd trefniadau digonol ar gyfer glanhau gwell a golchi dwylo yn cael ei gynnal?

Mesurau diogelwch yn yr ystafell ddosbarth

- + A yw maint dosbarthiadau yn cael ei leihau i'r maint lleiaf posibl, er enghraifft trwy ei rannu'n ddau grŵp?
- + A fydd y lefel 2 fetr o bellter cymdeithasol yn cael ei gynnal rhwng staff a myfyrwyr?
- + A yw'r ystafell ddosbarth wedi'i hawyru'n ddigonol?
- + A fydd yn ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb o amgylch yr ysgol yn ôl yr angen neu fel y'u cynghorir gan ganllaw Llywodraeth Cymru?

Mesurau diogelwch wrth gyrraedd a gadael

- + A adolygwyd y defnydd neu'r defnydd posibl o amseroedd cychwyn a gorffen am yn ail?
- + A yw trefniadau ar gyfer ciwio wrth gyrraedd, aros i gasglu disgyblion, goruchwyliaeth staff ac ati, wedi'u hadolygu?
- + A yw trefniadau ar gyfer cludiant ysgol, gan gynnwys wrth deithio, byrddio a glanio, wedi cael eu hadolygu?
- + A yw'r ysgol wedi cytuno i gymhwyso rheolau trafndiaeth gyhoeddus ar bellhau cymdeithasol a gorchuddion wyneb i ddisgyblion cynradd ac uwchradd ar bob cludiant ysgol bwrpasol?
- + A fydd disgyblion ar gludiant ysgol bwrpasol yn cael eu cadw o fewn eu grwpiau cyswllt?
- + A yw'r trefniadau ar gyfer ymwelwyr wedi'u hadolygu?

Cwestiwn i gynrychiolwyr ac aelodau:

A yw cydweithwyr sy'n agored i niwed yn feddygol yn fodlon ar eu trefniadau personol?

Diogelu staff bregus

Tra bo risgiau trosglwyddo yn dal i fod yn uchel, dylid gwneud trefniadau i'r staff mwyaf agored i niwed weithio gartref. Rhaid i hyn barhau i gynnwys pawb yn y categori "gwarchod" estynedig o staff eithriadol o agored i niwed yn glinigol (CEV), sy'n cael eu cyfarwyddo gan Lywodraeth Cymru i beidio â mynychu'r gwaith, hyd yn oed ar ôl brechu, tan 31 Mawrth. Mae'r undebau ar y cyd yn credu y dylai staff 60 oed neu'n hŷn a staff sy'n agored i niwed yn glinigol (CV) hefyd allu gweithio gartref nes eu bod yn cael eu cynghori gan eu meddyg teulu y dylai eu brechiad cychwynnol fod wedi cael ei effaith. Lle bo modd, dylid cymryd mesurau i amddiffyn eraill yng nghanam 1 y rhaglen frechu, sy'n 50 oed neu'n hŷn, a allai fod yn aros am eu brechiad cyntaf. Dylai menywod beichiog yn eu trydydd tymor sydd, gydag eithriadau cyfyngedig, yn cael eu cynghori yn erbyn brechu ar hyn o bryd hefyd gael eu caniatáu i weithio gartref. Ymhob achos, dylid cynnal asesiadau risg unigol ar gyfer gweithwyr agored i niwed cyn iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Gweler y cyngor undebau ar y cyd llawn yma Coronafeirws: grwpiau sy'n agored i niwed yn feddygol a risg uwch.

- † A yw asesiadau risg Covid-19 unigol wedi'u cynnal (a'u hadolygu lle gwnaed o'r blaen) ar gyfer y staff mwyaf agored i niwed ac ar gyfer staff sy'n pryderu am aelodau bregus o'r cartref?
- † A yw asesiadau risg unigol wedi'u cynnig i staff â nodweddion sy'n eu rhoi mewn risg uwch, megis oedran, ethnigrwydd, rhyw, ac anabledd?
- † A fydd gweithwyr CEV a gweithwyr eraill sy'n dod o dan drefniadau gwarchod yn cael eu cyfarwyddo i weithio gartref yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru?
- † A fydd y staff mwyaf agored i niwed sy'n weddill - gweithwyr CV a'r rheini sy'n 60 oed neu'n hŷn - yn cael gweithio gartref nes eu bod yn cael eu cynghori gan eu meddyg teulu bod eu brechiad cychwynnol wedi cael effaith, yn unol â chyngor undebau ar y cyd?

- † A fydd asesiadau risg unigol yn cael eu cynnal cyn dychwelyd i'r ysgol / coleg?
- † Lle bo modd, a gymerwyd mesurau i amddiffyn eraill yng nghanam 1 y rhaglen frechu sy'n 50 oed neu'n hŷn a allai fod yn aros am eu brechiad cyntaf?
- † A fydd menywod beichiog yn eu trydydd tymor yn cael gweithio gartref?
- † A yw'n amlwg na ddylai unrhyw fenyw feichiog, beth bynnag yw cam y beichiogrwydd, fod yn y gweithle oni bai bod asesiad risg y cytunwyd arno yn cynghori ei fod yn ddiogel?
- † A gytunir ar newidiadau dros dro mewn cyfrifoldebau fel y bo'n briodol i ganiatáu i'r uchod, lle bo angen, weithio gartref?
- † A ddarperir OAP priodol ar gyfer y staff hynny sydd â risg sylweddol?

Cwestiwn i gynrychiolwyr ac aelodau:

A yw cydweithwyr sy'n agored i niwed yn feddygol yn fodlon ar eu trefniadau personol?

Osgoi baich gwaith gormodol

Mae pandemig Covid-19 wedi cynyddu baich gwaith llawer o staff yn aruthrol ac erbyn hyn dylai ysgolion fod wedi cymryd camau i sicrhau bod trefniadau gweithio newydd yn lleihau baich gwaith ychwanegol a bod rhai arferion presennol yn cael eu newid neu eu hatal i leihau amser gweithio cyffredinol.

- + A yw'r ysgol wedi cynnal adolygiad i geisio lleihau baich gwaith staff?
- + A gymerwyd camau i gael gwared ar weithgareddau gweithio diangen yn gyfan gwbl ac arwain eraill mewn ffordd sy'n osgoi'r angen i staff fod, neu aros yn bresennol, yn yr ysgol?
- + A fydd yr ysgol yn cadw amser CPA ac amser digyswllt arall ar gyfer staff ystafell ddosbarth?
- + A fydd gofynion i weithio y tu allan i gyfrifoldebau arferol yn cael eu cadw i'r lleiafswm?
- + A fydd trefniadau ar waith i gefnogi lles staff fel cymorth cwnsela unigol?

Cwestiwn i gynrychiolwyr ac aelodau:

A yw'ch ysgol wedi cymryd camau boddhaol i fynd i'r afael â llesiant a lleihau'r baich gwaith?

Profi, Olrhain a Diogelu

Mae'r undebau ar y cyd yn disgwyl i bob ysgol gydymffurfio'n llawn â system Prawf, Olrhain a Diogelu'r GIG a hefyd cefnogi'r system brofi i nodi achosion na fyddent efallai'n cael eu nodi fel arall. Dylai'r gweithdrefnau sicrhau bod yr holl achosion positif a chysylltiadau yn cael eu heithrio o'r ysgol am y cyfnod angenrheidiol. Os ydych chi wedi cael brechlyn y coronafeirws ond bod gennych chi symptomau neu'ch bod wedi cael cyfarwyddyd i hunanynyssu, mae'n rhaid i chi hunanynyssu o hyd. Mae hunanynyssu yn berthnasol i oedolion a phlant o bob oed. Dylech chi hunanynyssu am 10 diwrnod:

- ✓ os ydych chi'n datblygu symptomau, gall hyn olygu bod gennych chi'r coronafeirws
- ✓ os ydych chi wedi cael canlyniad positif am COVID-19, hyd yn oed os nad oes gennych chi symptomau
- ✓ os ydych chi'n byw gyda rhywun sydd wedi datblygu symptomau neu gael canlyniad positif, neu fod hynny wedi digwydd i rywun o'ch aelwyd estynedig
- ✓ os yw'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu wedi cysylltu â chi a gofyn i chi hunanynyssu oherwydd bod achos positif o'r coronafeirws wedi dod i gysylltiad â chi.
os yw'r gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu wedi cysylltu â chi a gofyn i chi hunanynyssu oherwydd bod achos positif o'r coronafeirws wedi dod i gysylltiad â chi.

- + A yw'r ysgol yn cydymffurfio â phroses y GIG, gyda'r holl staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r ap 'NHS Covid' yn yr ysgol, gan gynnwys mewn ystafelloedd dosbarth, ac yn hunan-ynysu pan hysbysir gan yr ap?
- + A yw'r ysgol wedi sefydlu trefniadau ymarferol ar gyfer y system brofi llif unffordd (LFT) i nodi achosion asymptomatig?
- + A fydd y trefniadau ar gyfer goruchwyllo myfyrwyr â symptomau cyn iddynt fynd adref yn foddhaol?
- + A fydd yr holl staff, gan gynnwys staff allanol fel staff arlwygo a glanhau, yn derbyn tâl llawn yn ôl yr angen i hunan-ynysu, heb unrhyw effaith ar eu cofnod absenoldeb salwch?

Cwestiwn i gynrychiolwyr ac aelodau:

A yw prosesau'r ysgol ar gyfer profi, olrhain, ac eithrio cysylltiadau yn foddhaol?